# Cofnodion

## Cabinet

Dyddiad: Dydd Mercher, 13 Hydref 2021

Amser: 4.00 pm

Bresennol: Cynghorwyr J Mudd (Cadeirydd), J Hughes, Councillor R Jeavons, P Cockeram, D Harvey, D Mayer, Councillor R Truman and D Davies

Yn bresennol:

Ymddiheuriadau: Cynghorwyr M Rahman

---

1 **Datganiadau o ddiddordeb**

Dim

2 **Cofnodion y Cyfarfod Diweddaf**

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod ar Fedi 2021 fel rhai cywir.

3 **Adroddiad Blynyddol Corfforaethol 2020/21**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i'r Cabinet.

Hwn oedd y pedwerydd Adroddiad Blynyddol ar Adroddiad Corfforaethol pum-mlynedd y Cyngor.

Pwrpas yr adroddiad oedd adfyfyrio ar 2020/21 ac asesu llwyddiannau'r Cyngor hwn, gweld lle gallwn wella, ac edrych at y dyfodol yng ngweddill yr Adroddiad Corfforaethol.

2020/21 oedd un o'r cyfnodau mwyaf heriol y bu'n rhaid i'r Cabinet hwn a swyddogion ar hyd a lled y Cyngor reoli wrth i ni ymateb i bandemig Covid-19 a chefnogi cymunedau Casnewydd.

Ar waethaf yr heriau hyn, daeth cymunedau Casnewydd at ei gilydd i gefnogi ein gwasanaethau cyhoeddus, gan estyn allan at eu cymdogion a helpu ein busnesau lleol i adfer a ffynnu eto.

Mae'r adroddiad yn rhoi trosolwg o'r hyn a gyflawnodd Cyngor Casnewydd a'i bartneriaid yn erbyn cenhadaeth y Cabinet hwn o 'Wella Bywydau Pobl' a'r pedwar Amcan Lles

1. Gwella sgiliau, deilliannau addysgol a chyfleoedd am waith
2. Hyrwyddo twf economaidd ac adfywio ac amddiffyn yr amgylchedd yr un pryd
3. Galluogi pobl i fod yn iach, annibynnol a gwydn
4. Adeiladu cymunedau cydlynus a chynaliadwy

Ar hyd y pandemig, effeithiwyd ar lawer o wasanaethau'r Cyngor gan y cyfyngiadau, ac ymrwymodd y Cyngor i'r pedwar Nod Adfer Corfforaethol i gefnogi'r ymateb a chael gwasanaethau, cymunedau a busnesau Casnewydd i adfer. Dyma'r Nodau Adfer Corfforaethol:

1. Deall ac ymateb i'r heriau ychwanegol a ddaeth yn sgil Covid-19 gan gynnwys colli gwaith, yr effaith ar fusnesau ac ar gynnydd, llwyddiant a lles dysgwyr prif-ffrwd a bregus.

2. Deall ac ymateb i effaith Covid-19 ar nodau economaidd ac amgylcheddol y ddinas er mwyn galluogi Casnewydd i ffynnu eto.

3. Hyrwyddo ac amddiffyn iechyd a lles pobl, gan ddiogelu y rhai mwyaf bregus ac adeiladu cymunedau cryf a gwydn.

4. Rhoi i bobl yr adnoddau a'r gefnogaeth maent eu hangen i symud allan o'r argyfwng, gan ystyried yn benodol effaith Covid-19 ar ein cymunedau lleiafrifol ac ymylol .

Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol ym mis Medi i Bwyllgor Trosolwg a Rheoli Craffu y Cyngor. Yr oedd trafodaethau manwl am ymateb y Cyngor i Covid-19 ac adborth ar hynny yn yr Adroddiad Blynyddol. Cafodd argymhellion y Pwyllgor eu hystyried a'u cyfoesi yn y fersiwn derfynol hon o'r adroddiad a gyflwynir heddiw.

Yn dilyn cadarnhad y Cabinet, bydd yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyhoeddi a bydd ar gael yn Gymraeg.

Llynedd, bu'n rhaid i Gyngor Casnewydd ymaddasu i gyflwyno gwasanaethau a bu'n rhaid newid arferion oedd wedi hen sefydlu, er mwyn ymateb i anghenion brys yr argyfwng. Newidiodd gwasanaethau yn anhygoel o gyflym lle bo modd i ffyrdd o weithio o bell, galwadau fideo, a gwisgo dillad gwarchod i leihau lledaeniad y firws.

Ers cychwyn y pandemig, blaenoriaeth y Cyngor hwn oedd amddiffyn y mwyaf bregus yn ein cymunedau.

Ni ellid bod wedi gwneud hyn heb yr agwedd gydweithredol a gymerodd Cyngor Casnewydd, y sector cyhoeddus a mudiadau'r trydydd sector i ymgyrraedd at hyn, a'r gobaith oedd mai dyma waddol y profiad y gellid ei gynnal ac adeiladu arno at y dyfodol.

Dangosodd yr Adroddiad Blynyddol fod y Cyngor yn dal i wneud cynnydd da yn erbyn ei Amcanion Lles ar waethaf yr her, a'r pwysau ariannol cynyddol ar wasanaethau rheng-flaen y Cyngor.

Yr oedd sefyllfa ariannol y Cyngor mewn lle da ar ddiwedd 2020/21, a hyn wedi ei helpu gan gyllid Llywodraeth Cymru i gefnogi ymateb y Cyngor i'r pandemig.

Yr oedd y Cabinet yn ymwybodol o heriau ariannol newydd wrth i wasanaethau wynebu mwy o alw, a fyddai'n golygu y byddai'n rhaid i'r Cyngor wneud penderfyniadau anodd a mentrus at y dyfodol.

Amlygodd yr adroddiad hefyd rai meysydd yn y Cyngor fyddai angen eu gwella a lle byddai'r Cyngor yn gwneud y newidiadau angenrheidiol wrth gyflwyno gwasanaethau. Y rhain yw:

**Amcan Lles 1 (Gwella sgiliau, deilliannau addysgol a chyfleoedd am waith) - Addysg / Adfywio.**

- Ar waethaf yr heriau, cafodd ysgolion a disgyblion ganlyniadau da yn eu TGAU a Lefel A.

- Cydnabu'r Cyngor yr angen i sicrhau nad oedd y bwlch cyrhaeddiad yn lledu i'r disgyblion mwyaf difreintiedig yn y dyfodol.
- I ysgolion, disgyblion a'u teuluoedd, yr oedd dysgu gartref yn her. Gallodd y Cyngor ddarparu dyfeisiadau a mynediad at y rhyngrwyd i lawer o ddisgyblion i sicrhau nad oeddent ar eu colled o ddysgu.
- Trwy gydol y flwyddyn, cefnogodd ysgolion ddisgyblion oedd yn cael prydau ysgol am ddim, a'u teuluoedd, trwy ddarparu talebau i archfarchnadoedd.
- Effeithiodd y pandemig ar raglen Ysgolion yr 21ain y Cyngor, ond ar waethaf hyn, byddai prosiectau sydd eisoes ar y gweill yn Ysgol Gyfun Gwent Is Coed, Ysgol Basaleg, ysgol Gyfun Caerllion ac ysgol newydd yn Whiteheads yn cael eu cyflawni yn 2021/22.
- Effeithiodd y pandemig ar y Tîm Adfywio Cymunedol, a'i gwnaeth yn anodd cynnig rhaglenni wyneb yn wyneb. Ar waethaf hyn, gan weithio gyda Chymunedau Digidol Cymru, gallodd y Cyngor gynnig cyfarpar TG a chefnogi pobl i ddysgu o bell.
- Cynigiodd y Cyngor hefyd gefnogaeth ar-lein a rhithiol trwy raglen Reach / Restart i ffoaduriaid yn y ddinas, a arweiniodd at 95 o asesiadau a chefnogi 74 o bobl i ennill sgiliau a chymwysterau cyflogadwyedd.
- Yr oedd gweithio ar y cyd gyda'r AGPh, Gyrfa Cymru, Dysgu Cymunedol Oedolion Coleg Gwent yn hanfodol o ran rhoi cyfle i lawer o bobl yn y ddinas ail-hyfforddi, ennill cymwysterau newydd a chael gwaith.
- Yr oedd Academi Ieuenctid Casnewydd ac Aspire wedi galluogi pobl ifanc heb fod mewn addysg, gwaith na hyfforddiant i ennill cymwysterau a mynd at waith ac addysg bellach.
- Yr oedd arwyddion clir fod Casnewydd fel canolfan i'r diwydiannau digidol yn parhau i ffynnu, gan greu swyddi a chyfleoedd o'r radd flaenaf.

**Amcan Lles 2 (Hyrwyddo twf economaidd ac adfywio ac amddiffyn yr amgylchedd yr un pryd) - Adfywio, Buddsoddi a Thai, Gwasanaethau'r Ddinas.**

- Yr oedd cefnogi busnesau yn hanfodol, gan helpu 1,000 o fusnesau i gyrchu gwerth £19 miliwn o'r gefnogaeth ariannol oedd ar gael gan Lywodraethau Cymru a'r DU, a bod yn gyfrwng i sianelu cyngor a chefnogaeth yn genedlaethol.
- Cynlluniwyd meithrinfa ar gyfer busnesau newydd yn y sectorau digidol, technoleg a chreadigol yn yr Orsaf Wybodaeth sydd eisoes yn gartref i'r Academi Meddalwedd Cenedlaethol.
- Yr oedd ail-ddatblygu Marchnad Casnewydd ac Arcêd y farchnad ymysg rhoi o brosiectau mwyaf cyffrous y ddinas.
- Unwaith eto, cydnabuwyd Casnewydd fel un o'r awdurdodau oedd yn perfformio orau ar wastraff ac ailgylchu yng Nghymru a'r DU.
- Casnewydd oedd y Cyngor cyntaf yng Nghymru i brynu cerbydau trydan i gasglu gwastraff fel rhan o'n rhaglen gyson i uwchraddio fflyd y Cyngor i gerbydau trydan.
- Gosodwyd 20 pwynt gwefru ar draws Casnewydd i gerbydau trydan, ac uwchraddio goleuadau stryd/parcio yn y meysydd parcio.
- Cafwyd arian sylweddol i drwsio'r Bont Gludo a datblygu Canolfan Treftadaeth.
- Parhawyd i weithio i leihau ac ymateb i dipio anghyfreithlon, a gweithio ar nifer o brosiectau i wella bywyd gwyllt a bioamrywiaeth yn y ddinas, megis No Mow May.

1. **Amcan Lles 3 ( Galluogi pobl i fod yn iach, annibynnol a gwydn) - Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau'r Ddinas, Cyfraith a Rheoleiddio,**

- Gweithiodd y timau gwasanaethau cymdeithasol ac adfywio cymunedol yn ddiflino trwy gydol y pandemig gyda'n partneriaid gofal cymdeithasol a'r GIG i gefnogi rhai o'n trigolion mwyaf bregus.
- Galluogodd gwaith arloesol ni i ddatblygu pecyn cymorth i blant mewn perygl o gam-fanteisio oedd yn cael ei fabwysiadu ledled Gwent a'i rannu ar hyd a lled Cymru.
- Datblygwyd gwasanaeth estyn allan newydd i leihau unigrwydd yn ystod y pandemig, a deuai'n wasanaeth fyddai'n cael ei gynnig yn barhaol i gynnig seibiant yn absenoldeb y gwasanaeth blaenorol i ddinasyddion Casnewydd.

- Darparodd y tîm Cyswllt Cymunedol wasanaeth i dros 2,000 o drigolion gan roi gwybodaeth, cyngor dros y ffôn, a chefnogaeth un-i-un.
- Cefnogodd y Cyngor a Chasnewydd Fyw y GIG trwy gydol y rhaglen frechu, gan ddarparu adeiladau, staff a chyfleusterau eraill fel bod cynifer o bobl ag oedd modd yn cael eu brechu yn y ddinas.
- Yr oedd Cyllid Gofal Canolraddol (CGC) yn galluogi cyflogi Therapydd Galwedigaethol Trosiannol i helpu trosiant pobl ifanc i fyd oedolion.
- Dangosodd y pandemig hefyd fanteision peidio â dibynnu ar geir i deithio o gwmpas y ddinas. Yr oedd prosiectau teithio llesol a gyflwynwyd eleni wedi dangos manteision cerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus. Bu gwelliant yn ansawdd aer y ddinas wrth i bobl gael eu hannog i weithio o gartref.
- Bydd ein gwaith gyda Dinas-Ranbarth Caerdydd, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent a Phorth y Gorllewin yn dechrau dwyn i mewn gryn fuddsoddiad dros y ddegawd nesaf i wella ein seilwaith, gan ei wneud yn fwy integredig ar draws y rhanbarth.

**1. Amcan Lles 4 (Adeiladu cymunedau cydlynus a chynaliadwy) -Pobl a Newid Busnes, Adfywio, Buddsoddi a Thai**

- Taclo digartrefedd trwy gydol y pandemig gyda llety, cefnogaeth iechyd meddwl a chorfforol trwy ein perthynas dda gyda sefydliadau sy'n bartneriaid, a chyllid gan Lywodraeth Cymru. Yr ydym yn benderfynol o adeiladau ar ein llwyddiannau.
- Cefnogodd timau Canolfannau Cymdogaeth drigolion mewn angen, trwy 5,000 o alwadau ffôn i drigolion oedd yn hunan-ynysu, a chludo 800 o barseli bwyd i deuluoedd ynysig a bregus, cyd-gordio cynllun Parseli Bwyd Llywodraeth Cymru, a menter tyfu bwyd gartref yn Ringland.
- Darparodd lleoliadau Dechrau'n Deg ofal plant i blant gweithwyr allweddol trwy gyfnodau clo a gwyliau'r haf.
- Creodd gwaith partneriaeth cryf ddashfwrdd data am ddiogelwch ac ymddygiad gwrthgymdeithasol i ganoli ymdrechion ar y cyd a dod o hyd i atebion i wneud mannau gwyrdd yn ddiogel a hygyrch i bawb.
- Bu gan Gasnewydd hanes maith o gynnig croeso a lloches i bobl a ddewisodd ymgartrefu yn y ddinas, ac y mae'n falch o'i chymunedau amrywiol. Trwy gydol y flwyddyn a aeth heibio, mae'r Cyngor hwn wedi cefnogi a chyd-sefyll gyda'r cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig wrth i fudiad Black Lives Matter ennill momentwm, ac erys y Cyngor yn ymrwymedig i daclo pob math o drosedd casineb gyda'n partneriaid yn Heddlu Gwent.
- Gweithiodd ein tîm cydlynu cymunedol yn galed gyda'n partneriaid o'r trydydd sector i sicrhau fod ein trigolion o'r UE ac eraill yn derbyn cefnogaeth i barhau i fyw a gweithio yng Nghasnewydd.
- Byddwn hefyd yn parhau i gefnogi teuluoedd o ffoaduriaid sydd wedi gorfod symud o'u gwledydd oherwydd y gwrthdaro yn Syria ac Afghanistan.
- Cynnal Asesiadau Effaith Cymuned i ddeall effaith Covid-19 a mesurau cloi ar gymunedau yng Nghasnewydd.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet</u>

- Dywedodd y Cynghorydd Cockeram mai hwn oedd y cynllun corfforaethol mwyaf cadarnhaol a welodd yn hanes y Cyngor. Tynnodd sylw at eitemau a wnaeth argraff arno ef yn yr adroddiad. Yr oedd Home First yn wasanaeth ail-alluogi oedd yn atal derbyn i ysbyty yn ddiangen, ac yr oedd y fenter hon hefyd yn creu arbedion. Yr oedd Cysylltwyr Cymunedol yn cefnogi trigolion oedd yn defnyddio ein gwasanaethau. Yr oedd y Cynghorydd Cockeram yn falch o fod yn rhan o'r cynllun, a diolchodd i'r Arweinydd a esboniodd yr adroddiad yn dda, gan longyfarch pawb fu'n rhan o'i lunio.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Davies at y gwaith adfer strategol a wnaed yng nghyswllt ysgolion, gan gynnwys gweithredu'r Ddyletswydd Gymdeithasol-Economaidd. Yr oedd dysgu o bell yn heriol i ddisgyblion, a thrwy ddefnyddio arian LIC, gallodd y Cyngor ddarparu dros 6,000 o ddyfeisiadau yng nghartrefi plant, yn ogystal â gosod wifi i'r

disgyblion hynny heb fynediad at y rhyngrwyd. Yr oedd gwaith ar y gweill i helpu myfyrwyr a staff gyda'u lles emosiynol wedi covid. Yr oedd yr adroddiad hefyd yn canolbwyntio ar lwyddiant canolfannau Cymunedol i gyflwyno rhaglenni addysg megis Academi Ieuenctid Casnewydd ac Aspire, oedd yn rhoi hyfforddiant unswydd ac yn sicrhau bod oedolion ifanc yn cael eu paratoi am waith ac i ymwneud â'r system. Cafodd rhaglen Reach/Restart ei chyflwyno ledled Casnewydd ar waethaf y pandemig, gyda llawer o fodiwlau cefnogi ar gael i ffoaduriaid.

- Ategodd y Cynghorydd Truman sylwadau'r Cynghorydd Cockeram mai hwn oedd yr adroddiad gorau hyd yma ar waethaf y pandemig. Cafodd y system Profi, Olrhain a Gwarchod (POG) ei sefydlu'n gyflym, a hon oedd un o'r rhai gorau yng Nghymru. Yr oedd yr uned brofi symudol, hybiau cymunedol, cefnogaeth i gysgwyr allan, yn ogystal â'r nifer o wasanaethau eraill a ymatebodd i'r pandemig yn dyst i'r gwaith caled a wnaed gan y Cyngor. Diolchodd y Cynghorydd Truman i holl weithwyr Cyngor Dinas Casnewydd a ddaeth at ei gilydd ac a gyfrannodd at gynnwys cadarnhaol yr adroddiad.

- Soniodd y Cynghorydd Hughes fod swyddogion wedi cwrdd â heriau cynaliadwyedd a'r amgylchedd yng Nghasnewydd i gwrdd â'r targed Sero Net Carbon Niwtral erbyn 2030. Ymysg llwyddiannau yr oedd newid goleuadau LED i rai ynni isel, a Chasnewydd oedd y Cyngor cyntaf yng Nghymru i gyflwyno loriau gwastraff trydan. Derbyniodd Cyngor Dinas Casnewydd hefyd wobr Alan Clarke am ynni lleol/cymunedol, yn y Gwobrau Solar a Storage ym mis Rhagfyr 2020. Cyfeiriodd y Cynghorydd hefyd at lwyddiant gwahanol brosiectau i wella amgylchedd y ddinas.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Harvey at adfywio cyson y ddinas, gan gynnwys Tŵr y Siartwyr, y Farchnad Dan Do, Arcêd y Farchnad, ac adeilad Swyddfa'r Post ym Mill Street, pont droed Devon Place, a'r Orsaf Wybodaeth i enwi dim ond rhai. Llongyfarchodd y Cynghorydd Harvey yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd am yr adroddiad ac yr oedd yn falch o uwch-dîm y cyngor am eu gwaith caled a'u hymwneud â'r adroddiad.

- Cafodd y Dirprwy Arweinydd argraff ffafriol o'r adroddiad, a diolchodd i bawb fu'n rhan o'i lunio. Diolchodd i'r trigolion, a chrybwyll y cam o gyflwyno biniau gwastraff llai, gydag ailgylchu wedi cyfrannu at ostyngiad yn swm y gwastraff. Ategodd sylwadau'r Cynghorydd am adfywio'r ddinas, a chyfeirio hefyd at y cynllun teithio llesol, a gynyddwyd o 47% eleni.

- Ategodd y Cynghorydd Mayer sylwadau'r cydweithwyr, a thynnu sylw at y nifer o weithiau y crybwyllwyd yr hybiau Cymdogaeth a Deallus yn yr adroddiad, gan nodi eu bod wedi cynyddu yn ystod y cyfnod heriol. Cyfeiriodd at dudalen 33 yr adroddiad oedd yn dangos astudiaeth achos o'r hybiau, ac yn rhoi llawer o wybodaeth.

Diolchodd yr Arweinydd i'w chydweithwyr am eu sylwadau treiddgar.

<u>Penderfyniad:</u>
Fod y Cabinet yn cadarnhau Adroddiad Blynyddol 2020/21 fel bod modd ei gyhoeddi erbyn 31 Hydref 2021.

4 **Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLl)**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i'r Cabinet.

Cadarnhaodd y Cyngor llawn yr adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Casnewydd ym mis Mai eleni. Derbyniodd proses adolygu'r Cyngor hefyd gymeradwyaeth ffurfiol gan Lywodraeth Cymru.

Galwyd am safleoedd ymgeisio, a bu'r Cyngor hefyd yn ymgynghori ar Adroddiad Cwmpasu Mantoli Cynaliadwyedd Integredig. Byddai'r adroddiad hwn yn fodd i sicrhau bod cynaliadwyedd wrth galon y CDLl newydd. Byddai'n cynnwys asesiadau ar gydraddoldeb, iaith, iechyd a lles, a byddai'n allweddol i asesu safleoedd ymgeisio a'r holl bolisïau newydd fyddai yn y CDLl.

Yr oedd yr Adroddiad Cwmpasu Mantoli Cynaliadwyedd Integredig arfaethedig yn cynnwys fframwaith sydd yn canoli ar ddeg thema:

- Economi a chyflogaeth
- Poblogaeth a chymunedau
- Iechyd a lles
- Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Trafnidiaeth a symud
- Adnoddau naturiol
- Bioamrywiaeth
- Amgylchedd hanesyddol
- Tirwedd
- Newid hinsawdd

Byddai angen ystyried safleoedd arfaethedig a pholisïau drafft yn erbyn y themâu hyn. Yr oedd y themâu yn cynnwys nifer o gwestiynau asesu, sydd i'w gweld yn Atodiad A Adroddiad y Cabinet. I grynhoi, byddai gan safleoedd a pholisïau a gafodd atebion cadarnhaol i'r cwestiynau asesu hyn fwy o gyfle o gael eu cynnwys yn y CDLl fyddai'n cael ei fabwysiadu.

Yr oedd yr Adroddiad Cwmpasu Mantoli Cynaliadwyedd Integredig a'r fframwaith yn destun ymgynghori gan y cyhoedd. Gellid gweld y sylwadau a dderbyniwyd yn Atodiad B, ynghyd a'r newidiadau a wnaed wedi'r ymgynghori.

Ymysg y materion yr ymdriniwyd â hwy yn yr ymatebion yr oedd:

- Pwysigrwydd seilwaith gwyrdd
- Datganiad Llywodraeth Cymru o Argyfwng Natur
- Buddsoddi yng nghanol y ddinas
- Gwarchod mwy ar Wastadeddau Gwent

I grynhoi, gofynnwyd i'r Cabinet ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd a chymeradwyo'r Adroddiad Cwmpasu Mantoli Cynaliadwyedd Integredig a'r Fframwaith a gyfoeswyd wedi'r ymgynghori. Petae'n cael ei gymeradwyo, gofynnir i'r Cyngor hefyd gytuno y gallai'r swyddogion symud ymlaen i gam nesaf paratoi'r CDLl newydd. Mae hyn yn golygu ymwneud a rhanddeiliaid er mwyn paratoi drafft o weledigaeth ac amcanion arfaethedig ar gyfer y CDLl newydd, a thrafod lefel y twf, yn enwedig o ran tir ar gyfer tai a chyflogaeth y dymunwn ei gyflwyno yng Nghasnewydd.

Byddai pob cynnig ac adborth ar y cyfnod ymwneud nesaf hwn yn dod yn ôl i'r Cabinet ar gyfer trafodaeth ac ystyriaeth bellach yn y dyfodol.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet</u>

- Sylwodd y Cynghorydd Hughes ar sylwadau yn yr ymgynghoriad yn yr adroddiad gan bartneriaid a rhanddeiliaid y Cyngor, megis Cyfeillion Gwastadeddau Gwent a llawer eraill. Croesawodd y Cynghorydd Hughes yr angen i warchod y tirwedd gwledig, a bod y gwaith sy'n cael ei wneud yn cael ei gydnabod yn genedlaethol ac wedi derbyn sylw gan y BBC, a nododd fod Casnewydd ar y blaen mewn llawer maes cadwraeth.

- Cefnogodd y Cynghorydd Davies sylwadau'r Cynghorydd Hughes cam Wastadeddau Gwent gan ganolbwyntio ar fioamrywiaeth a'r adar. Yr oedd hyn yn sylfaenol i'r CDLl er

mwyn lles trigolion Casnewydd at y dyfodol, ac yr oedd yn falch felly fod y CDLl yn ystyried hyn.

Penderfyniad:

Gwnaeth y Cabinet:
1. Nodi ac ystyried y sylwadau o'r ymgynghoriad a dderbyniwyd am Adroddiad MCI ynghyd ag ymatebion y swyddogion.
2. Cymeradwyo y Fframwaith ac Adroddiad MCI (a gyfoeswyd wedi'r ymgynghoriad).
3. Cytuno y gallai'r swyddogion ddechrau ymwneud â rhanddeiliaid er mwyn paratoi drafft o Weledigaeth ac Amcanion ar gyfer Casnewydd a dewisiadau twf am gyfnod y cynllun. (Byddai'r cynigion a'r adborth wedyn yn cael eu dychwelyd at y Cabinet i'w hystyried).

5 **Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2019/20**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i'r Cabinet.

Dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010) yr oedd gofyn i'r Cyngor adrodd yn flynyddol ar y cynnydd a wnaeth yn erbyn yr amcanion cydraddoldeb strategol sydd yn eu Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb hefyd yn mynnu bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi data am gydraddoldeb staff, ac yr oedd hyn hefyd yn yr adroddiad hwn. Mae a wnelo'r Adroddiad Blynyddol hwn â blwyddyn gyntaf cyflwyno yn erbyn Amcanion Cydraddoldeb Strategol newydd y Cyngor, a gyhoeddwyd ar 31 Mawrth 2020.

Datblygwyd yr Amcanion newydd mewn partneriaeth â rhanddeiliaid mewnol ac allanol allweddol a buont yn destun ymwneud helaeth â'r gymuned. Bu dwyn i mewn gymunedau ar lawr gwlad yn fodd o sicrhau, tra bod y Cynllun yn cyflwyno gweledigaeth strategol am gydraddoldeb yng Nghasnewydd, y bydd hefyd yn sicrhau canlyniadau amlwg i gymunedau ar lawr gwlad.

Yr oedd y pandemig wedi rhoi heriau sylweddol o ran cyflwyno yn erbyn rhai meysydd gwaith, er enghraifft, gwasanaethau i gwsmeriaid. Fodd bynnag, yr oedd rhai ardaloedd ar eu hennill o ganlyniad uniongyrchol i effaith COVID-19. Bu'n rhaid i waith y Cyngor ar gydraddoldeb eleni fod yn hyblyg, gan ymateb i heriau oedd yn ymddangos, yn enwedig o ran mynediad at wybodaeth, addysg, ac ymdrin â throseddau casineb hiliol.

Teimlodd ein cymunedau oedd wedi ymfudo yma o'r UE effaith ddofn wedi i'r DU adael yr UE, ac yr oedd ein canolbwynt ar gefnogi pobl i aros yng Nghasnewydd ac amddiffyn eu hawliau yn parhau. Yr oedd y Cyngor hefyd wedi mesur pa effeithiol oedd y trefniadau monitro trwy gydol y flwyddyn, ac wedi cymryd camau i'w gwella.

Dyma rai o uchafbwyntiau'r flwyddyn a aeth heibio*:*

- Ymunodd y cyngor â Pholisi Dim Goddef Hiliaeth Cyngor Hil Cymru, a Siarter Troseddau Casineb Cymorth i Ddioddefwyr
- Sefydlodd Arweinydd y cyngor gyfarfod bord gron i'r gymuned Ddu, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig, sy'n cwrdd bob chwarter
- Yr oedd dyddiadau arwyddocaol gan gynnwys Mis Balchder, 365 Hanes Du, Wythnos Ffoaduriaid, Diwrnod Coffau'r Holocost ac Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb yn cael eu cydnabod a'u hyrwyddo ledled y ddinas, gan gynnwys yn ein hysgolion
- Sefydlwyd grwpiau cyflwyno thematig i gyflwyno yn erbyn pob Amcan Cydraddoldeb
- Adolygwyd a chyfoeswyd cylch gorchwyl ac aelodaeth Grŵp Cydraddoldeb Strategol (GCS) y cyngor, ac y mae'r Grŵp bellach yn derbyn adroddiadau cynnydd bob chwarter
- Yr oedd cyfrifoldebau dan y Ddyletswydd Cymdeithasol-Economaidd wedi eu gwreiddio ym mhrosesau'r cyngor, gan gynnwys penderfyniadau strategol

- Yr oedd gan y cyngor rwydwaith staff Amrywiaeth (lleiafrifoedd ethnig) LGBTQ+ ac Anabledd, a'r cyfan wedi eu cynrychioli ar y GCS
- Dosbarthwyd £100,000 i brosiectau cymunedol ar lawr gwlad, wedi ei oruchwylio gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd a grŵp llywio oedd yn cynrychioli'r gymuned
- Sefydlwyd Grŵp Rhanddeiliaid Hygyrchedd, i gynghori ar brosiectau'r cyngor, gan ganolbwyntio ar hygyrchedd i bob anabl
- Rhoddwyd cefnogaeth i'r holl staff Profi, Olrhain Amddiffyn i sicrhau bod yr ymateb i COVID-19 yn ddiwylliannol ac yn ieithyddol sensitif
- Mae adolygiad o bolisi cwynion y cyngor wedi ei gwblhau, ac mae'n rhoi canllawiau clir ar sut y bydd y cyngor yn ymateb i gwynion am gamwahaniaethu
- Yr oedd rhaglen bartneriaeth a gyflwynwyd gyda Ffilm Cymru yn annog grwpiau a dangynrychiolwyd i ddysgu mwy am yrfaoedd yn y sector ffilmiau
- Sefydlwyd grŵp gweithlu a gwnaed cyfoesiadau i ffurflenni cais (tynnu allan fanylion personol) a phroses cyfweliadau gadael (ystyried profiadau o gamwahaniaethu)
- Rhoddwyd cryn gefnogaeth i ddinasyddion yr UE, a chafwyd lefel uchel o geisiadau SSUE gan drigolion Casnewydd (10,500 ar hyn o bryd)
- Gwreiddiwyd Canllaw Gwrth-Fwlio newydd Llywodraeth Cymru mewn prosesau lleol
- Datblygodd y Cyngor Ieuenctid ganllawiau LGBTQ+ i ysgolion
- Lansiwyd cynllun newydd i bobl ag anableddau dysgu i gynyddu cyfleoedd i fyw yn annibynnol
- Cefnogwyd 302 o bobl gan Gysylltwyr Cymunedol lleiafrifoedd ethnig y cyngor
- Cyflwynwyd seminar ar-lein ar droseddau casineb mewn partneriaeth a'r Ganolfan dros Wrthweithio Casineb Digidol a Hope not Hate i weithwyr proffesiynol a grwpiau cymunedol

Amlygodd dadansoddiad o ddata ein gweithlu fannau allweddol ar gyfer gwella, gan gynnwys gwella'r lefel o ddata cydraddoldeb sy'n cael ei gofnodi, asio categorïau yn well gyda data'r cyfrifiad, a deall pam bod lefelau gadawyr yn uwch i rai grwpiau (e.e., pobl o gefndir ethnig lleiafrifol a phobl anabl).

Aros yr un fath wnaeth cynrychiolaeth ethnig lleiafrifol y Cyngor eleni ar waethaf gostyngiad bach yn nifer y staff, a gostyngodd bwlch tâl rhwng y rhywiau am y cyfnod hwn. Mae gwaith gan y cyngor i'w wneud o hyd i wella'r gynrychiolaeth o staff o leiafrifoedd ethnig ar bob lefel yn y sefydliad, a dyma fydd ffocws ein gwaith yn ystod 2021/22. Sefydlodd y cyngor weithgorau Recriwtio a Chynrychioli Gweithlu penodol i fwrw ymlaen â hyn.

Adolygwyd yr Adroddiad Blynyddol hefyd gan y Pwyllgor Craffu yn gynharach y mis hwn, a chynhwyswyd eu sylwadau yn Adroddiad y Cabinet.

Gwahoddodd yr Arweinydd yr Aelod Cabinet dros Gymuned ac Adnoddau i annerch y Cabinet.

Dywedodd yr Aelod Cabinet dros Gymuned ac Adnoddau mai crynodeb oedd yr adroddiad o'r gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn gyntaf ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd. Yr oedd yn gosod allan ymrwymiad y Cyngor i ddiwylliant yn y gweithle ac agwedd at gyflwyno gwasanaethau oedd yn rhoi gwerth ar gynhwysiant ac amrywiaeth.

Byddwn yn parhau i fwrw ymlaen a'r gwaith hwn dros y 12 mis nesaf, ac y mae'r Adroddiad Blynyddol yn gosod allan flaenoriaethau clir ar gyfer y cyfnod nesaf, seiliedig ar adolygu data am ein gweithlu a chynnydd yn erbyn ein Hamcanion Cydraddoldeb hyd yma.

Cyflwynwyd gwaith eleni yn erbyn cefndir heriol, a olygodd ganolbwyntio ar anghydraddoldeb a chraffu ar ymateb gwasanaethau cyhoeddus i'r pandemig, yn enwedig o ran cefnogi cymunedau lleiafrifol. Cryfder mawr yn y cyfnod hwn oedd y rhan a chwaraewyd gan randdeiliaid allweddol, gan gynnwys ein cymunedau ar lawr gwlad a'n staff o leiafrifoedd. Nid yn unig y bu hyn yn sail i ymateb y Cyngor i COVID-19, ond ei flaenoriaethau hefyd yn ystod y cyfnod adfer a gwaith cydraddoldeb ehangach.

Cafodd Grŵp Cydraddoldeb Strategol y Cyngor ei adfywio ac y mae bellach yn derbyn adroddiadau chwarterol; mae'r Pencampwyr o blith yr Aelodau Etholedig a Chadeiryddion Rhwydweithiau yn bresennol, ac y mae'n canoli fwy ar ddeilliannau wrth gefnogi'r gwaith hwn.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cynghorydd Mayer am ei waith caled.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet

· Dywedodd y Cynghorydd Davies mai darn o ddeddfwriaeth statudol oedd hwn, oedd yn mynnu cadw at y ddyletswydd gymdeithasol-economaidd, a diolchodd i'r swyddogion am sicrhau bod hyn wedi ei wreiddio yn y ddeddfwriaeth. Yr oedd hefyd yn galluogi cynghorwyr i ganolbwyntio ar gydraddoldeb yng Nghasnewydd a chefnogi'r sawl oedd dan fwyaf o anfantais. Yr oedd yn croesawu gwaith y swyddogion i sicrhau hyfforddi cynghorwyr a'r staff am y ddeddfwriaeth hon.

· Bu'r Cynghorydd Hughes yn ddiweddar yng nghyfarfod Partneriaeth Strategol Cymru, lle'r oedd gwaith awdurdodau lleol yn cael ei gydnabod, ac yn arbennig, Casnewydd, gan y Swyddfa Gartref ac yn rhyngwladol. Yr oedd am nodi sylwadau FEIA, a'r effaith gadarnhaol a gafodd Casnewydd ar gymunedau ethnig, ac yr oedd yn falch fod Casnewydd a Chymru yn cael eu gweld fel lloches a llefydd croesawgar i bobl oedd yn dod i'r ddinas.

· Gwnaeth y Cynghorydd Cockeram sylw am wasanaeth canmoliaeth a chwynion gan gwsmeriaid i'r Cyngor ac nad oedd canmoliaeth yn cael ei gynnwys. Y gobaith yn y dyfodol oedd y buasem yn edrych ar ganmoliaeth yn ogystal â chwynion.

Penderfyniad:
Cymeradwyodd y Cabinet Adroddiad Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2019/20 i'w ystyried gan y Cyngor ym mis Tachwedd.

6 **Diweddariad ar Ymateb ac Adferiad Covid-19**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i'r Cabinet.

Yr oedd yr Adroddiad yn rhoi cyfoesiad am ymateb y Cyngor a'i bartneriaid i argyfwng Covid-19 gan gefnogi'r ddinas, yn drigolion a busnesau, i gydymffurfio â'r cyfyngiadau presennol a bwrw ymlaen gyda Nodau Adfer Corfforaethol y Cyngor.

Yr oedd gwybodaeth fwy cyfoes ar gael ar Ddashfyrddau Covid-19 Iechyd Cyhoeddus Cymru am y ffigyrau diweddaraf a chan Lywodraeth Cymru hefyd am y newid i'r cyfyngiadau.

Ers cyfarfod diwethaf y Cabinet ym mis Medi, yr oedd cyfradd yr achosion yng Nghasnewydd ac ardaloedd eraill yng Nghymru yn dal yn uchel wrth i'r cyfyngiadau lacio ac i bobl gymdeithasu mwy a dilyn trefn fwy normal.

Atgoffodd yr Arweinydd y sawl oedd yn bresennol ei bod yn bwysig i bobl ddal i gadw at ganllawiau Llywodraeth Cymru o ran gwisgo mygydau, cadw pellter cymdeithasol (lle bo modd) a bod yn ymwybodol o bobl, boed ffrindiau neu deulu, sydd yn dal yn fregus ac yn agored i'r firws.

Mae ysbytai yng Nghasnewydd a Gwent yn dal i weld pobl yn cael eu trin am Covid ac er nad oedd y niferoedd mor uchel â'r hyn a welwyd y gaeaf diwethaf, yr oeddent yn dal yn

ddigon uchel i gael effaith ar wasanaethau eraill y GIG. Dywedodd Llywodraeth Cymru y gellid dal i osod cyfyngiadau ychwanegol petai'r GIG yn dweud fod amrywiolion eraill yn dod i'r amlwg.

I bobl dros 50 oed a'r rhai mwyaf bregus, yr oedd brechiadau atgyfnerthu yn cael eu cynnig yn ogystal â'r brechiad ffliw tymhorol.

Yr oedd y rhai 12 i 15 oed yn cael y brechiad.

Yr oedd yn dal yn bwysig i drigolion fanteisio ar y cynigion hyn ac i'r rhai sydd yn y grwpiau oedran eraill dderbyn y brechiad.

Yr oedd cymunedau hefyd yn wynebu effeithiau economaidd ehangach wrth i'r economi adfer o Covid.  Fel y dywedwyd yn adroddiad Brexit i'r Cabinet hwn, byddai'r gaeaf yn gweld mwy o gostau ar aelwydydd oherwydd cynnydd mewn prisiau bwyd ac ynni, yn ogystal â phroblemau cyflenwi. Byddai hyn yn cael llawer o effaith ar aelwydydd ar incwm isel yng Nghasnewydd ac yn rhoi mwy o bwysau ar y Cyngor a chefnogaeth y trydydd sector.

**Cyfoesiad gan Gyngor Dinas Casnewydd**

Yr oedd gwasanaethau rheng-flaen yn dal i gael eu cyflwyno ac yr oedd y Cyngor yn dal i ddilyn cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru i'r staff (lle medrant) i barhau i weithio o gartref.

Yr oedd hyn yr un mor wir i Aelodau, a byddai mynediad at y Ganolfan Ddinesig a'r swyddogaethau democrataidd yn dal i gael eu cynnal yn rhithiol.

Mae'r Cyngor hefyd wedi bod yn rhoi'r gofynion technegol a'r protocolau angenrheidiol i gynnal cyfarfodydd hybrid yn y Cyngor.

Byddai'r Cyngor yn adrodd yn ôl ar y Normal Newydd i'r Cabinet ym mis Tachwedd am y newidiadau polisi, gan gynnwys y buddion, risgiau ac effeithiau cysylltiedig.
Daeth yr ysgolion yn ôl ym mis Medi, ac yr oedd y gyfradd bresenoldeb yn is na'r disgwyl oherwydd achosion positif o covid, disgyblion heb symptomau yn cael eu cadw gartref a rhieni yn peidio ag anfon disgyblion i'r ysgol oherwydd Covid-19

Yr oedd yr holl Hybiau Cymunedol a llyfrgelloedd ar agor ac ar gael i bobl gyrchu gwasanaethau, hyfforddiant a gwasanaethau eraill y cyngor.

Lansiodd Cyngor Casnewydd Gronfa Fusnes gwerth £300,000 i Gasnewydd i fusnesau newydd ac egin-fusnesau dyfu.

Yr oedd timau rheoleiddio'r Cyngor yn dal i sicrhau fod mannau busnes yn cydymffurfio a chyfyngiadau covid.

Parhaodd tîm safonau masnach y Cyngor i wneud gwaith gorfodi er mwyn sicrhau nad oedd busnesau yn gwerthu pethau i bobl dan oed.

The Cyngor was making preparations to launch its next participatory budget to community groups to support the Covid recovery of the City.

Pwysleisiodd yr Arweinydd bwysigrwydd cadw at ganllawiau Llywodraeth Cymru, gan annog pobl o bob cymuned i fanteisio ar y brechiad.

Byddai mwy o gyfoesiad am gynnydd y Cyngor yn cael ei roi y mis nesaf.

<u>Sylwadau Aelodau'r Cabinet</u>

- Cyfeiriodd y Cynghorydd Davies at y cynnydd yn nifer yr achosion ers i'r ysgolion agor, a bod Casnewydd ar lefel oren er mwyn sicrhau bod plant yn aros yn ddiogel ac i gadw mesurau megis amseroedd cyrraedd/gadael gwahanol, amser chwarae a symud mewn coridorau i leihau'r risg o ledaenu'r firws. Yr oedd yn falch fod rhaglen frechu i rai 12-15 oed, a'i bod yn hanfodol cadw apwyntiadau brechu. Yr oedd y Cynghorydd Davies hefyd ynd erbyn briffiadau ddwywaith yr wythnos gyda'r swyddogion ar lefelau heintiad a phresenoldeb mewn ysgolion. Ni allwn oddef presenoldeb yn disgyn, ac yr oedd llawer o rieni yn pryderu; fodd bynnag, gyda'r brechu, fe ddylai lefelau pryder leihau. Yr oedd golwg fanwl yn cael ei gadw ar ddiffyg presenoldeb am resymau heb fod yn ymwneud â covid, ac yr oedd gan blant yr hawl i'r cyfle gorau o ran addysg, a byddai hyn yn digwydd petaent yn mynd i'r ysgol.

- Cyfeiriodd y Dirprwy Arweinydd at broblemau cyflenwi, a'r staff rheng-flaen oedd heb y diogelwch o weithio o gartref. Soniodd y Dirprwy Arweinydd hefyd am brinder tanwydd a'r diffyg gyrwyr HGV oedd yn tanlinellu'r ffaith nad oedd Cyngor Dinas Casnewydd gallu dianc rhag hyn a bod cynlluniau yn cael eu sefydlu ar fyrder gan y Cyngor i ymdrin â hyn, a diolchodd i'r staff am eu gwaith caled.

- Lleisiodd y Cynghorydd Harvey ei phryder am y toriad diweddar mewn Credyd Cynhwysol a'r anghydraddoldebau fyddai'n digwydd yn sgil hyn i blant mewn tlodi, ac y byddai prinder bwyd, heb sôn am y codiad oedd i ddigwydd toc mewn tanwydd wrth i'r gaeaf nesáu. Byddai teuluoedd yn cael trafferth penderfynu a ddylent fwydo'r teulu neu wresogi'r tŷ.

- Dywedodd y Cynghorydd Truman fod codi cyfyngiadau yn golygu bod y staff Gorfodi yn gweithio'n agos gyda pherchenogion busnesau trwyddedig a siopau, gan roi cyngor a chyfarwyddyd yn ogystal â'u helpu gydag asesiadau risg.

- Yr oedd y Cynghorydd Cockeram yn cefnogi sylwadau'r Cynghorydd Harvey a nododd fod pob maes gwasanaeth wedi dioddef o effeithiau Covid, ac ar draws Gwent fod 540 lle mewn cartrefi gofal a phreswyl. Yr oedd hyn oherwydd cyfyngiadau covid ac yr oedd hyn yn rhoi pwysau ar ryddhau o ysbytai, ac ar y cyngor o ran darparu pecynnau gofal cartref. Er hynny, fe fu newid er gwell gyda rheolwyr cartrefi gofal unigol yn gwneud penderfyniadau am lenwi'r llefydd hynny.

Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn hanfodol cadw'r eitem hon ar Agenda'r Cabinet o ystyried y sylwadau a dderbyniwyd gan Aelodau'r Cabinet.

<u>Penderfyniad:</u>
Nododd y Cabinet y cynnydd hyd yma a'r risgiau oedd yn dal i wynebu'r Cyngor a'r ddinas.

7 **Diweddariad ar ôl Brexit**

Cyflwynodd yr Arweinydd yr adroddiad i'r Cabinet.

Yr oedd Adroddiad nesaf y Cabinet yn gyfoesiad am drefniadau trosiannol y trefniadau wedi gadael yr UE ers i'r DU adael y r UE ym mis Rhagfyr 2020.

**<u>Cynnydd hyd yma</u>**
- Ers yr adroddiad blaenorol ym Medi, tarfwyd ar economi Cymru a'r DU gan sawl digwyddiad a gafodd effaith ar aelwydydd a busnesau ledled Casnewydd.
- Gwelsom yr effaith yr oedd y farchnad lafur yn gael ar draws gwahanol sectorau megis logisteg yn tarfu ar gyflenwadau bwyd a thanwydd, gofal cymdeithasol, adeiladu, ffermio a lletygarwch.

- Yr oedd hyn hefyd yn cael effaith ar wasanaethau'r Cyngor gyda tharfu ar Wasanaethau'r Ddinas a gofal cymdeithasol.
- Yr oedd cost ynni (trydan a nwy) wedi cynyddu, a byddai aelwydydd ar dariffau safonol a thalu-ymlaen-llaw yn gweld cynnydd mewn costau ynni. I aelwydydd ar incwm isel yng Nghasnewydd byddai hyn yn cael effaith sylweddol ac yn rhoi mwy o bwysau ar yr aelwydydd bregus hyn.
- Yr oedd prisiau bwyd yn codi, a chyda tharfu ar gyflenwi, yr oedd rhai bwydydd heb allu cyrraedd archfarchnadoedd ac yn cael effaith ar fanciau bwyd ledled Casnewydd a Chymru.
- Er bod y materion hyn wedi eu priodoli yn unig i'r DU yn gadael yr UE a bod effaith Covid wedi cyfrannu'n sylweddol, daeth effaith Brexit ar fusnesau yn amlycach, am eu bod yn gallu gweithredu'n effeithiol cyn gadael.
- Yr oedd tîm Argyfyngau Sifil y Cyngor yn cefnogi tîm Aur y Cyngor i ymateb i'r materion hyn ac yn cydweithredu gydag awdurdodau lleol eraill fel rhan o'i Fforwm Gwytnwch Lleol ehangach.
- Yr oedd timau Cyllid y Cyngor hefyd yn monitro'r sefyllfa fel rhan o'u monitro misol a chynllunio refeniw.
- Aeth dros dri mis heibio ers i'r terfyn amser basio i ddinasyddion yr UE/AEE wneud cais am Statws Sefydledig yr UE.
- Yng Nghasnewydd derbyniwyd 10,990 cais ers i'r broses gychwyn.
- Derbyniodd 5,410 o ddinasyddion yr UE/AEE Statws Sefydlu llawn tra derbyniodd 3,620 o ddinasyddion Statws Cyn-sefydlu.
- Er hynny, yr oedd dros 1,000 o drigolion yn dal i aros am benderfyniad.
- Yr oedd y Cabinet hwn eisiau ailadrodd eu cefnogaeth i ddinasyddion yr UE / AEE sy'n byw ac yn gweithio yng Nghasnewydd, gan fod gan bawb ran i'w chwarae i wneud Casnewydd yn lle gwych i fyw a gweithio ynddo. Anogodd yr Arweinydd unrhyw un oedd yn dal i aros am benderfyniad neu'n cael anhawster cwblhau eu cais i gysylltu â'r Cyngor a mudiadau eraill fel Cyngor ar Bopeth.
- Yr oedd Cyngor Casnewydd yn dal i weithio gyda grwpiau cymunedol a sefydliadau'r trydydd sector i sicrhau y gallai dinasyddion yr UE gyrchu'r gwasanaethau a'r gefnogaeth oedd arnynt eu hangen.
- Yr oedd y Cyngor yn gweithio gyda GAVO i wneud trefniadau i gefnogi mwy o waith ar dlodi bwyd.
- Yr oedd swyddogion Cydlynu Cymunedol yn awr yn canolbwyntio ar hawliau wedi Brexit ac yn gwneud yn siŵr fod dinasyddion yr UE, busnesau a gwasanaethau yn deall eu hoblygiadau i gyrchu gwasanaethau.

Sylwadau Aelodau'r Cabinet

- Adleisiodd y Cynghorydd Harvey ei sylwadau blaenorol ar yr eitem gynharach ar yr agenda.

- Cytunodd y Cynghorydd Davies gyda sylwadau'r Cynghorydd Harvey, a mynegodd bryder am argyfwng tanwydd y gaeaf a'r effaith ar brif gyflogwyr Casnewydd fel y gwaith dur lleol. Gyda'r posibilrwydd o ddiffyg tanwydd yn y gadwyn gyflenwi, gallai hyn gael cryn effaith ar swyddi a'u colli.

- Adleisiodd y Cynghorydd Truman sylwadau'r Arweinydd a chydweithwyr a chyfeiriodd at drafferthion posib oedd yn cael eu hwynebu gan deuluoedd oedd yn cael trafferthion ariannol i dalu am fwyd ac ynni y gaeaf hwn.

- Yr oedd y Cynghorydd Hughes ar fwrdd ymddiriedolwyr un o fanciau bwyd Casnewydd, ac yn rhannu pryder ei gydweithwyr, ond dywedodd hefyd fod gwirfoddolwyr yng Nghasnewydd yn gweithio'n galed iawn yn ystod y pandemig. Mynegodd y Cynghorydd Hughes ei ddiolchgarwch i i'r gwirfoddolwyr oedd yn gweithio yn y banciau bwyd. Yr oedd yn anffodus fod eu hangen, ond yr oedd eu gwaith yn bwysig.

- Mynegodd y Cynghorydd Mayer ei bryderon am annhegwch ac anghydraddoldeb, a chytunodd gyda'i gydweithwyr.

- Ategodd y Cynghorydd Jeavons ei sylwadau blaenorol am yrwyr HGV, a chyfeirio at yr 20 o yrwyr lori o dramor gafodd fisa i weithio ym Mhrydain, ac yr oedd yn gobeithio y deuai mwy ymlaen.

- Rhannodd y Cynghorydd Cockeram bryderon ei gydweithwyr am fanciau bwyd.

Fel y dywedwyd yn yr eitem flaenorol ar yr agenda, dywedodd yr Arweinydd ei bod yn hanfodol cadw'r eitem hon ar Agenda'r Cabinet o ystyried y sylwadau a dderbyniwyd gan Aelodau'r Cabinet.

Penderfyniad:
Fod y Cabinet yn nodi ymateb y Cyngor i Brexit.

8 **Crynodeb o Fusnes y BGC**

Nododd y Cabinet y ddolen i'r crynodeb o fusnes.

9 **Rhaglen Waith**

Hwn oedd yr adroddiad misol rheolaidd ar y rhaglen waith.

Penderfyniad:
Nododd a derbyniodd y Cabinet y rhaglen a gyfoeswyd.